Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001



# Trefniadaeth y Cyfrifiad

## Trefnu Cyfrifiad 2001

### Ymdrech anferthol

Mae cynnal cyfrifiad o'r boblogaeth yn orchwyl anferthol. Mae'n rhaid ymweld â phob cartref – tua 24 miliwn yng Nghymru a Lloegr – ac mae'n rhaid cyfrif pawb.

Rhydd y daflen ffeithiau hon gipolwg ar y drefniadaeth y tu ôl i ymarferiad ar y raddfa hon.

Dechreuodd y gwaith ar Gyfrifiad 2001 bron cyn gynted ag y cynhaliwyd y cyfrifiad diwethaf ym 1991. Mae swyddfa'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am gynnal y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) wedi bod yn ofalus iawn â'i baratoadau i sicrhau y bydd popeth yn mynd yn iawn.

### Profi'r Cyfrifiad – 'cynnal profion'

Ym mis Mehefin 1997 cynhaliwyd Prawf Cyfrifiad mawr i werthuso dulliau casglu a phrosesu newydd, mathau amgen o ffurflen cyfrifiad a phrofi ymateb y cyhoedd i nifer o gwestiynau newydd a diwygiedig.

O ganlyniad i'r prawf gwnaed nifer o newidiadau, gan gynnwys cynllun ffurflen newydd a chyflwyno'r dull postio'n ôl i ddychwelyd ffurflenni'r cyfrifiad wedi'u cwblhau, yn hytrach na bod cyfrifwyr yn casglu'r ffurflenni'n bersonol.

Ym mis Ebrill 1999 cynhaliwyd Ymarfer llawn o'r Cyfrifiad yn cwmpasu tua 148,000 o gartrefi mewn naw ardal ledled y DG. Roedd hwn yn profi'r dulliau dosbarthu a chasglu a hefyd yn profi'r systemau ar gyfer prosesu data a chynhyrchu allbynnau. Roedd hefyd yn gyfle terfynol i brofi ymateb pobl i'r cwestiynau.

### Cynllunio a recriwtio

Ar gyfer y Cyfrifiad llawn y dasg fawr gyntaf fydd rhannu Cymru a Lloegr yn tua 115,000 o ardaloedd a elwir yn Ranbarthau Cyfrifo. Mae pob rhanbarth yn cynnwys cyfartaledd o tua 200 o gartrefi (neu 500 o bobl). Cynhyrchir mapiau yn dangos ffiniau pob rhanbarth i helpu'r cyfrifwyr i gynllunio eu gwaith.

Tua blwyddyn cyn Diwrnod y Cyfrifiad (29 Ebrill 2001) dechreuwyd ar y broses o benodi gweithlu maes dros dro o 70,000. Mae'r rhain wrth wraidd yr ymgyrch ac maent yn cynnwys Rheolwyr Ardal y Cyfrifiad, Rheolwyr Rhanbarthol, Arweinwyr Tîm, a thua 63,000 o gyfrifwyr. Bydd pob Arweinydd Tîm yn gyfrifol am hyd at 20 o gyfrifwyr.

YSTADEGAU GWLADOL

Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad,
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Tel: 01329 813800
e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk

## Dosbarthu'r Cyfrifiad i'ch drws

Y cyfrifwyr yw'r bobl sy'n mynd â'r Cyfrifiad at y cyhoedd. Hyd at dair wythnos cyn Diwrnod y Cyfrifiad bydd y cyfrifwyr yn dechrau dosbarthu'r ffurflenni i bob cartref. Bydd y cyfrifwyr yn ceisio cysylltu â phob cartref pan fyddant yn galw am y tro cyntaf. Os na allant wneud hynny, bydd y cyfrifwyr yn ymweld am yr ail waith. Os na cheir unrhyw ymateb eto, bydd ef/hi yn postio ffurflen/ffurflenni y cyfrifiad drwy'r blwch llythyrau.

Wedyn cyfrifoldeb pob cartref fydd postio eu ffurflenni yn ôl wedi'u cwblhau cyn gynted â phosibl ar ôl Diwrnod y Cyfrifiad. Bydd y cyfrifydd yn ailymweld ag unrhyw gartref na fydd yn gwneud hyn.

Gall y cyfrifwyr roi cynghor ar amrywiaeth o sefyllfaoedd a byddant yn gwybod beth i'w wneud, er enghraifft, os bydd rhywun i ffwrdd ar eu gwyliau, os bydd cartref yn wag, neu os yw'r eiddo yn sefydliad comiwnol megis carchar, ysbyty neu ysgol. Byddant yn ateb ymholiadau ac yn helpu pobl a all fod yn cael anhawster yn llenwi eu ffurflenni.

Bydd llinell gymorth (codir cyfraddau lleol ar alwadau) ar agor bob diwrnod yn ystod cyfnod y Cyfrifiad i ateb ymholiadau cyhoeddus. Bydd ymgynghorwyr llinell gymorth dwyieithog ar gael i ateb cwestiynau mewn nifer o ieithoedd ar wahân i Saesneg. Darperir gwasanaeth arbennig i'r gymuned fyddar.

Hwyrach y bydd ystod o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol eraill megis y Ganolfan Cynghori ar gael i helpu pobl mewn rhai rhannau o'r wlad.

## Prosesu data

Unwaith y caiff y ffurflenni eu postio'n ôl, cânt eu casglu gan gludydd diogel a'u cludo i Swyddfa Prosesu'r Cyfrifiad yn Swydd Gaer. Yma, bydd y dasg anferth o gynhyrchu ystadegau'r cyfrifiad yn dechrau. Caiff y ffurflenni eu sganio'n electronig, caiff y data ei gofnodi a rhoddir codau i'r atebion ysgrifenedig. Yna ysgrifennir y delweddau ar ficroffilm i'w cadw am gyfnod hir. Yng Nghymru a Lloegr caiff y ffurflenni papur eu dinistrio, gan arbed y gost o £3 miliwn o storio tua 30 milltir o gofnodion papur ar silffoedd. Disgwylir cwblhau'r cam hwn erbyn mis Mawrth 2002.

## Archwilio'r ffigurau

Unwaith y cynhelir y Cyfrifiad, mae angen cynnal archwiliad ym mis Mai-Mehefin 2001 o ba mor dda y mae'r Cyfrifiad wedi cyfrif pobl. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfrif terfynol mor gywir â phosibl. Yn ystod yr ymarfer hwn – Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad – bydd cyfwelwyr yn ailymweld â sampl o 300,000 o gartrefi ledled y DG ac yn cynnal cyfweliad ar garreg y drws. Caiff yr atebion eu cymharu â'r ffurflenni ar gyfer y prif Gyfrifiad.

## Canlyniadau'r Cyfrifiad

Cyhoeddir canlyniadau cyntaf y Cyfrifiad ddiwedd tymor yr Haf 2002. Cyhoeddir prif ganlyniadau craidd y cyfrifiad mewn cyfres o gynnyrch dros y flwyddyn ddilynol a byddant yn bennaf ar ffurf electronig, yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd. Bydd cyhoeddiadau papur hefyd ar gael yn dilyn ymgynghori â defnyddwyr ynglŷn â'u hanghenion.

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

Mae'r amlinelliad arfaethedig o'r drefn gyhoeddi neu gyflenwi fel a ganlyn:

- Dechrau rhyddhau poblogaethau yn ôl oed a rhyw ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Lleol;
- Adroddiadau ag ystadegau safonol ar yr un pryd yn cwmpasu pob ardal yng Nghymru a Lloegr;
- Cyhoeddi crynodeb ar gyfer y DG gyfan;
- Ystadegau Ardal y Cyfrifiad (ystadegau ar gyfer ardaloedd bach);
- Ystadegau ar fudo a gweithleoedd;
- Gwasanaeth ar gyfer ystadegau allbwn/gweithleoedd a mudo;
- Adroddiadau thema topig, yn canolbwyntio ar bynciau penodol megis y farchnad lafur neu iechyd.

## Cyfrinachol a diogel

Dim ond er mwyn cynhyrchu ystadegau ac ymchwil y defnyddir y wybodaeth a ysgrifennir ar ffurflen y cyfrifiad. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'i staff wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i sicrhau na ddatgelir unrhyw wybodaeth bersonol sy'n galluogi rhywun i adnabod unigolion neu gartrefi. Cedwir cofnodion y cyfrifiad yn gyfrinachol am 100 mlynedd a dim ond er mwyn cynhyrchu gwybodaeth am y boblogaeth yn gyffredinol y cânt eu defnyddio.

Dim ond un eithriad sydd i'r rheol hon. Mae'r Cyfrifiad yn orfodol. Os bydd unigolyn yn gwrthod cwblhau ei ffurflen yn gywir, gellir cyflwyno'r ffurflen fel tystiolaeth mewn llys.

## Amserlen y Cyfrifiad – Cerrig Milltir Allweddol

| | |
|---|---|
| • Awst 2000 | Rheolwyr Ardal y Cyfrifiad wrth eu gwaith |
| • Diwedd Hydref 2000 | Rheolwyr Rhanbarthol y Cyfrifiad wrth eu gwaith |
| • Canol Chwefror 2001 | Arweinwyr Tîm y Cyfrifiad wrth eu gwaith |
| • Canol Mawrth 2001 | Cyfrifwyr y Cyfrifiad wrth eu gwaith |
| • Dechrau Ebrill 2001 | Ffurflenni'r Cyfrifiad yn cael eu dosbarthu i bob cartref<br>Ymgyrch hysbysebu'r Cyfrifiad Cenedlaethol yn dechrau |
| • Ebrill 29 2001 | DIWRNOD Y CYFRIFIAD |
| • Mai-Mehefin 2001 | Cynhelir Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad i archwilio unrhyw dangyfrifo yn y prif Gyfrifiad |
| • Mehefin 2001 | Dechrau sganio'n drydanol ffurflenni a ddychwelwyd, cofnodi a chodio'r data |
| • Mawrth 2002 | Cwblhau'r sganio trydanol, cofnodi a chodio'r data |
| • Haf 2002 i Haf 2003 | Rhyddhau'r prif ganlyniadau cenedlaethol a lleol i amserlen a ddatganwyd ymlaen llaw |

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

**Taflenni ffeithiau eraill:**

1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad Drwy'r Oesoedd

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:


**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk